# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)01-08 (p2): 17 Ionawr 2008""

### Deiseb cyf P-03-087: Deiseb i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailystyried ei pholisi ynni, mewn perthynas yn benodol â thyrbinau gwynt enfawr.

### Diben

Deiseb newydd i'w hystyried gan y Pwyllgor.

### Y Cefndir

Mae'r ddeiseb yn gofyn i'r Cynulliad:

Osod rheol ynghylch y pellter a adewir rhwng tyrbinau a chartrefi, ysgolion ac ysbytai yng Nghymru

Adolygu'n llawn ganllawiau TAN 8 y Cynulliad ynglŷn â lleoli tyrbinau gwynt.

Gorchymyn cynnal cymhariaeth lawn ddadansoddol o gostau a manteision datblygiadau ynni posibl, gan gynnwys y costau amgylcheddol a chostau eraill; er enghraifft, cymharu defnyddio tir y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer tyrbinau neu ar gyfer biodanwydd dros gyfnod o 30 mlynedd.

Atodir y ddeiseb a gwybodaeth ychwanegol gan y deisebwyr yn ei chefnogi i'r papur hwn.

### Y deisebwyr yn fodlon cyflwyno tystiolaeth lafar

Mae'r deisebwyr wedi datgan y byddent yn fodlon ymddangos gerbron y Pwyllgor i gyflwyno'u hachos pe ceid gwahoddiad i'r perwyl.

### Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb a phenderfynu ar ei llwybr gweithredu.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008

# Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Deiseb tyrbinau gwynt i Gynulliad Cymru

Oherwydd

1. Bod Cymru'n hunanddigonol o ran ei chapasiti ynni; mae arbed ynni'n fuddsoddiad mwy cynaliadwy na chynhyrchu ynni;

2. bod gan Gymru, o bosibl, gyfleoedd unigryw i gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy drwy e.e. llosgi glo yn lân a gweithgynhyrchu celloedd solar;

3. y dylai prosiectau ynni gael eu rheoli gan bobl leol yn hytrach na datblygwyr;

4. bod canllawiau presennol y DTI a'r UE ynghylch codi tyrbinau yn ddryslyd, yn gamarweiniol, yn hen ac o bosibl yn beryglus;

5. bod TAN 8 sef hybu tyrbinau gwynt mewn cymunedau bychain gwledig gan Gynulliad Cymru yn ymrannol, yn anodd ei reoli ac yn wrthgynhyrchiol;

'r ydyn ni sydd â'n llofnodion isod yn erfyn ar Gynulliad Cymru i ailystyried ei bolisi ynni, yn enwedig o ran hybu tyrbinau gwynt enfawr.

Aelodau'r Cynulliad, ataliwch os gwelwch yn dda ganllawiau TAN 8 ar dyrbinau gwynt mewn cymunedau gwledig a'u hailystyried..